# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 19 Tachwedd 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(231)v3

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015/16 (30 munud)**
**NDM5621 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015-16, fel y pennir yn Nhabl 1 "Cynigion Cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015-16", a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 12 Tachwedd 2014 a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig

Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

**Dogfennau Ategol:**

Dogfen Cyllideb Comisiwn y Cynulliad
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

**4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5624 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y mae pobl hŷn yn ei wneud i les cymdeithasol ac economaidd Cymru a phwysigrwydd sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu hadlewyrchu mewn polisïau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

2. Yn nodi cyhoeddi'r ddogfen 'Lle i'w Alw'n Gartref', adolygiad gan y Comisiynydd Pobl Hŷn o ofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn i fwrw ymlaen â'r argymhellion yn yr adolygiad.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu a nodi gofynion hyfforddiant sylfaenol ar gyfer gweithwyr cartref gofal sy'n ymgorffori egwyddorion urddas a pharch.

Mae'r ddogfen 'Lle i'w Alw'n Gartref' ar gael yn:

Lle i'w Alw'n Gartref

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod cyfran gynyddol o bobl yng Nghymru dros 65 oed ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynllunio ar gyfer iechyd a gwasanaethau

cymdeithasol yn rhoi ystyriaeth i hyn.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag amodau a chyflog isel a gwella cyfleoedd hyfforddiant a gyrfa i weithwyr mewn cartrefi gofal.

**5 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5622 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod costau cyfleustodau yn annerbyniol o uchel ac yn nodi'r anawsterau penodol y mae hyn yn eu hachosi ar gyfer cymunedau gwledig, busnesau, a'r rhai ar incwm isel.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu i liniaru costau cyfleustodau uchel.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi'r gronfa 'Cheaper Energy Together' a lansiwyd gan Adran Llywodraeth y DU ar Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) i gefnogi newid cyflenwyr ar y cyd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda DECC i hyrwyddo newid cyflenwyr ar y cyd ledled Cymru i leihau biliau defnyddwyr.

Mae manylion y gronfa 'Cheaper Energy Together' ar gael yn:

https://www.gov.uk/collective-switching-and-purchasing
(Saesneg yn unig)

**Gwelliant 2 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i rewi prisiau ynni.

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar gostau cysylltiad â'r grid a'u heffaith ar filiau cyfleustodau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

**Gwelliant 4 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i'r Grid Cenedlaethol i sicrhau ei fod yn edrych ar Gymru yn ei chyfanrwydd wrth gyfrifo sut y mae trydan yn cael ei allforio pan gaiff cyfrifiadau prisio eu gwneud er mwyn sicrhau gwerth am arian i ddefnyddwyr.

**Gwelliant 5 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried pa mor agored i gynnydd mewn prisiau y mae cwsmeriaid nad ydynt ar y grid, lle mae opsiynau ar gyfer newid yn gyfyngedig, neu lle nad yw marchnadoedd yn cael eu rheoleiddio.

**6 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**
**NDM5623 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod pobl drawsryweddol yng Nghymru ymhlith y rhai mwyaf agored i arwahanrwydd cymdeithasol a rhagfarn.

2. Yn nodi bod y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer y gymuned drawsryweddol yng Nghymru yn annigonol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cyflogaeth, hyfforddiant, gofal iechyd a thai.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) pennu Gweinidog i gymryd cyfrifoldeb am y materion y mae'r gymuned drawsryweddol yn eu hwynebu;

b) llunio cynllun gweithredu ar gyfer canfod rhagfarn sefydliadol, gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus a mynd i'r afael â stigma cymdeithasol, aflonyddu a bwlio ar gyfer y grŵp hwn; ac

c) adrodd yn ôl i'r Cynulliad o fewn 6 mis i'r dyddiad y caiff y Gweinidog ei benodi.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

"codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o droseddau casineb yn erbyn pobl drawsryweddol, er mwyn annog dioddefwyr i roi gwybod am achosion o'r fath."

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

"sicrhau bod pobl drawsryweddol sy'n dioddef troseddau casineb yn cael mynediad at wasanaethau cymorth cynhwysfawr a hawdd eu cyrraedd."

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gweithio gyda grwpiau LGBT a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i sicrhau bod yr heddlu yn cymryd troseddau casineb yn erbyn pobl drawsryweddol o ddifrif a bod

dioddefwyr yn teimlo eu bod yn gallu rhoi gwybod am droseddau a'u bod yn cael eu cefnogi drwy'r broses cyfiawnder troseddol.

## 7 Cyfnod Pleidleisio

## 8 Dadl Fer - Gohiriwyd (30 munud)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 25 Tachwedd 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12 Tachwedd 2014 i'w hateb ar 19 Tachwedd 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.
(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i gyflwyno system newydd o gategoreiddio ysgolion cynradd? OAQ(4)0492(ESK)**W**

**2. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau a gaiff eu cymryd i atal bwlio yn ysgolion Cymru? OAQ(4)0495(ESK)

**3. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adnabod Anghenion Addysgol Arbennig? OAQ(4)0497(ESK)

**4. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgyrch 'Ffocws ar Wyddoniaeth'? OAQ(4)0500(ESK)**W**

**5. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brentisiaethau yng Nghymru? OAQ(4)0491(ESK)

**6. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa fesurau sydd ar waith i asesu cyrhaeddiad plant oed ysgol gynradd? OAQ(4)0490(ESK)

**7. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gynyddu canran y rhai sy'n gadael yr ysgol yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg? OAQ(4)0499(ESK)

**8. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar weithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd? OAQ(4)0488(ESK)

**9. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar newidiadau i'r cwricwlwm TGAU yng Nghymru? OAQ(4)0498(ESK)

**10. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i gymwysterau yng Nghymru? OAQ(4)0503(ESK)

**11. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei strategaeth ar gyfer addysg bellach? OAQ(4)0505(ESK)**W**

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau a gaiff eu cymryd i atal absenoldeb disgyblion yn ystod y tymor? OAQ(4)0489(ESK)

**13. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw cynigion y Gweinidog i wella ymarfer dysgu yng Nghymru? OAQ(4)0502(ESK)**W**

**14. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau a gaiff eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i atal ysgolion rhag cael eu cau? OAQ(4)0493(ESK)

**15. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen Twf Swyddi Cymru yn ne Cymru? OAQ(4)0496(ESK)

## Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y problemau gorlenwi diweddar ar y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru? OAQ(4)0486(EST)

**2. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran prynu tir sy'n gyfagos i gefnffyrdd? OAQ(4)0481(EST)

**3. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau ar y stryd fawr? OAQ(4)0484(EST)

**4. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i fusnesau bach? OAQ(4)0491(EST)

**5. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y rhanbarthau dinas yng Nghymru? OAQ(4)0487(EST)

**6. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i fusnesau yn Nhorfaen? OAQ(4)0492(EST)

**7. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Twf Lleol Powys? OAQ(4)0485(EST)

**8. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o gerbydau ar gyfer gwasanaethau rheilffordd ar lein Cwm Rhymni? OAQ(4)0482(EST)

**9. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0483(EST)

**10. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau sy'n digwydd yn SA1? OAQ(4)0480(EST)

**11. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn ag unrhyw welliannau arfaethedig i'r cysylltiad rhwng yr A55 a phorthladd Caergybi? OAQ(4)0479(EST)**W**

**12. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â gwella gwasanaethau rheilffordd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0493(EST)**W**

**13. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar berfformiad Maes Awyr Caerdydd? OAQ(4)0494(EST)

**14. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses ymgynghori sy'n gysylltiedig â Phrosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru? OAQ(4)0476(EST)

**15. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith economaidd y byddai'n gobeithio ei gweld o ganlyniad i greu Ardal Gwella Busnes yng Nghastell-nedd? OAQ(4)0490(EST)